Cofnodion cyfarfod hybrid y **PWYLLGOR CYNLLUNIO** a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, nos Fercher, 18 Mehefin 2025, yn dilyn cyfarfod y Cyngor a'i ragflaenodd.

**PRESENNOL**

Y Cynghorydd D. Simmons (Is-gadeirydd)

Y Cynghorwyr S. Feeney, K. R. Jones, Mrs. D. L. King, W. Price, Ms V. Roberts, A. J. Rutherford ac A. Walker.

Hefyd yn bresennol

A. R. James – Arsylwr
Mrs H. J. Mead – Clerc y Dref
Mrs T. A. Jones – Dirprwy Glerc

**1. YMDDIHEURIADAU**

Cyflwynwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr Mrs S. L. Connolly, Ms J. L. McAlpine, B. Mellor a Ms R. S. Roberts.

**2. DATGAN BUDDIANNAU**

Gofynnodd Clerc y Dref a oedd gan yr aelodau unrhyw fuddiant personol a/neu fuddiant sy'n rhagfarnu i'w ddatgan yng nghyswllt unrhyw fusnes i'r ystyried ar yr agenda

***PENDERFYNWYD*** *nad oedd unrhyw fuddiannau i'w datgan.*

**3. CEISIADAU CYNLLUNIO**

Ystyriodd yr aelodau'r ceisiadau cynllunio a dderbyniwyd fel y dangosir isod a ***PHENDERFYNWYD*** *fel y nodir wrth y cais.*

**Nodyn 1:** Cynghorir yr Awdurdod Cynllunio Lleol fod Cyngor Tref y Rhyl yn dymuno datgan, ble bo'n briodol, y dylai fod yn ofynnol i'r holl geisiadau a restrir isod sy'n ymwneud â lleoliadau fel swyddfeydd, busnesau, siopau ac archfarchnadoedd i osod arwyddion dwyieithog o amlygrwydd cydradd, i adlewyrchu natur ieithyddol ardal y Rhyl.

**Nodyn 2:** Mae Cyngor Tref y Rhyl a Chyngor Sir Ddinbych wedi cyhoeddi argyfwng hinsawdd yn ffurfiol yn ddiweddar ac felly byddai'n dymuno bod datblygwyr a'r Awdurdod Cynllunio yn cymryd camau i sicrhau bod yr holl geisiadau maint mawr yn y dyfodol yn uchafu'r defnydd o dechnolegau sy'n bodoli eisoes i leihau'r effaith negyddol ar yr hinsawdd.

| RHESTR Y CEISIADAU CYNLLUNIO | |
|---|---|
| i. | **LLEOLIAD Y SAFLE:** Helens, 45 Ffordd Trellewelyn, Y Rhyl, Sir Ddinbych, LL18 4LT<br><br>**WARD:** Trellewelyn<br><br>**CYNGHORWYR Y WARD**: Mrs M. A. Blakeley-Walker<br>W. Price<br>Ms V. Roberts<br><br>**RHIF Y CAIS:** 45/2024/1239/PF<br><br>**DISGRIFIAD**: Newid defnydd o siop trin gwallt i siop bwyd poeth tecawê<br><br>**YMGEISYDD:** Mr Thananjcheliyan Ernest<br><br>***PENDERFYNIAD***: *Gwrthwynebiad ar y sail y byddai'r newid defnydd yn arwain at effaith annerbyniol ar amwynder preswylwyr preswyl uwchben, i'r ochr ac ar draws y ffordd i safle'r cais drwy gyfrwng cynnydd mewn sŵn, tarfu ac arogleuon. Ar y sail hon ystyrir bod y cais yn annerbyniol gan ei fod yn groes i brawf vi) Polisi RD1 Cynllun Datblygu Lleol Sir Ddinbych, y canllawiau yn y Llawlyfr Rheoli Datblygu a chyngor y Cyngor yn y Canllawiau Cynllunio Atodol mabwysiedig, 'Tecawês Bwyd Poeth.'* |
| ii. | **LLEOLIAD Y SAFLE:** Barnetts, 35 - 37 Ffordd Wellington, Y Rhyl, Sir Ddinbych, LL18 1BA<br><br>**WARD:** Bodfor<br><br>**CYNGHORWYR Y WARD**: Ms J. L. McAlpine<br><br>**RHIF Y CAIS:** 45/2024/1605/PF<br><br>**DISGRIFIAD**: Addasiadau i flaen siop a gosod canopi ar y wal flaen (rhannol ôl-weithredol)<br><br>**YMGEISYDD:** Mr Hunar Rauff<br><br>***PENDERFYNIAD***: *Dim gwrthwynebiad* |
| iii. | **LLEOLIAD Y SAFLE:** Banc Lloyds, 10 - 14 Stryd y Frenhines, Y Rhyl, Sir Ddinbych, LL18 1RY<br><br>**WARD:** Bodfor<br><br>**CYNGHORWYR Y WARD**: Ms J. L. McAlpine<br><br>**RHIF Y CAIS:** 45/2025/0227/PF<br><br>**DISGRIFIAD:** Addasiadau mewnol a gosod peiriant codi arian parod newydd gyda choler y tu allan |

| | |
|---|---|
| | **YMGEISYDD:** Banc Lloyds<br><br>***PENDERFYNIAD***: *Dim gwrthwynebiad* |
| iv. | **LLEOLIAD Y SAFLE:** 15 Stryd Caer, Y Rhyl, Sir Ddinbych, LL18 3ER<br><br>**WARD:** Plas Tirion<br><br>**CYNGHORWYR Y WARD**: Mrs J. M. Evans<br>K. R. Jones<br><br>**RHIF Y CAIS:** 45/2025/0242/LE<br><br>**DISGRIFIAD**: Tystysgrif datblygiad cyfreithlon ar gyfer defnydd cyfredol yr annedd fel tŷ amlfeddiannaeth (defnydd Dosbarth C4)<br><br>**YMGEISYDD:** Majid Khan (Genics Investment)<br><br>***PENDERFYNIAD***: *Dim gwrthwynebiad, o ran nad oes unrhyw dystiolaeth i awgrymu nad fu neu nad yw'r annedd yn cael ei ddefnyddio fel tŷ amlfeddiannaeth.*<br><br>*DS: Nid yw'r Cyngor Tref yn cefnogi tai amlfeddiannaeth fel rheol, mae'n well ganddo anheddau ar gyfer meddiant aelwyd unigol, ond mae'n deall nad yw hwn yn gais cynllunio ar gyfer parhau i ddefnyddio'r annedd fel tŷ amlfeddiannaeth.* |

**4. DIWEDD Y CYFARFOD**

Gan nad oedd rhagor o eitemau busnes i'w trafod, cyhoeddodd y Cadeirydd ddiwedd y cyfarfod.

Llofnod: ……………..…………

Dyddiad: ………………………...